

Cyngor Adnewyddu'r Economi, dydd Llun 28 Ionawr 2013

Papur i'w Nodi: Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a'r amserlen sy'n gysylltiedig â Biliau'r Ddeddfwriaeth Gynllunio

Amserlen

1. Yn ystod y ddadl lawn ar y sail dystiolaeth ar gyfer y Bil Cynllunio a gynhaliwyd ar 25^{ain} cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy y byddai Bil Diwygio Cynllunio Drafft a Phapur Gwyn yn cael eu cyhoeddi at ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus cyn diwedd 2013.
2. Caiff Bil arall i atgyfnerthu'r ddeddfwriaeth gynllunio bresennol, gan gynnwys y Bil Diwygio Cynllunio, ei gyflwyno'n ddiweddarach. Y bwriad, yn y tymor canolig, yw cyflwyno un Deddf Gynllunio ar gyfer Cymru.

Ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol a rhanddeiliaid eraill

3. Y Fforwm Cynllunio yw'r prif ddull ymgynghori Gweinidogol ar gyfer deddfwriaeth a pholisi'n ymwneud â chynllunio defnydd tir. Mae'r Fforwm yn cynnwys buddiannau rhanddeiliaid allweddol o'r sectorau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a llywodraeth leol. Mae cynrychiolwyr partneriaid cymdeithasol yn cynnwys:
 - CBI Cymru
 - FSB Cymru
 - HBF
 - RICS
 - Fforwm Ymgynghorwyr Cynllunio Cymru
 - Y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
4. Yn gyffredinol mae'r Fforwm Cynllunio yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, ond bwriedir cynnal cyfarfodydd yn amlach - bob chwarter - pan fydd gwaith ar y Biliau Cynllunio yn mynd rhagddo. Mae'r Fforwm Cynllunio wedi cyfarfod ddwywaith ers mis Medi 2012. Fis Medi diwethaf, cyflwynwyd y sail dystiolaeth ar gyfer y Bil i'r Fforwm a chynhaliwyd sesiwn diweddar ar 18^{fed} Ionawr 2012.

Ymgysylltu penodol â Phartneriaid Cymdeithasol

5. Ymgysylltir â Phartneriaid Cymdeithasol ar y cyd ar y Biliau Cynllunio drwy Gyngor Adnewyddu'r Economi. Cyfarfu John Davies, Cadeirydd y Grŵp Cynghori Annibynnol, a swyddogion o'r Is-adran Cynllunio ag un

o is-grwpiau Cyngor Adnewyddu'r Economi fis Hydref diwethaf pan drafodwyd y sail dystiolaeth ar gyfer y Bil a'r amserlen. Ymgysylltir ymhellach â Chyngor Adnewyddu'r Economi wrth i'r gwaith ar y Biliau Cynllunio fynd rhagddo.

6. Yn ogystal â gweithio ar y cyd â phartneriaid cymdeithasol, mae Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy a swyddogion o'r Is-adran Cynllunio yn cyfarfod yn rheolaidd â chymdeithasau busnes unigol. Mae swyddogion o'r Is-adran Cynllunio ar gael hefyd i roi sesiynau briffio wedi'u teilwra i aelodau ehangach y cymdeithasau hyn.